e - gylchgrawn Addysg Grefyddol

# Geirfa Allweddol

| | |
|---|---|
| ***Down and outs*** | pobl heb arian, gwaith, lle i fyw. |
| ***Godparents*** | rhieni bedydd mewn bedydd Cristnogol - fel arfer perthnasau neu ffrindiau i’r teulu sy’n addo cynorthwyo’r rhieni ym magwraeth y plentyn. |
| ***Guideparents*** | fel '*Godparents*' mewn seremoni enwi ddyneiddiol. |
| **Amodau gwaith** | amgylchiadau gwaith pobl. Work conditions. |
| **Bedydd** | defod enwi plentyn yn y grefydd Gristnogol. |
| **Bregus** | agored i gael niwed neu i ddioddef. Vulnerable. |
| **Crynwyr** | grŵp o bobl sy’n cyfarfod ac yn addoli’n syml gan fod yn agored i Ysbryd Duw a Christ. |
| **Cwricwlwm** | yr hyn sy’n cael ei ddysgu mewn ysgol neu goleg. |
| **Cyfarfod Addoli** | term y Crynwyr am eu ‘gwasanaethau’. |
| **Cymdeithas Dyneiddwyr y Deyrnas Gyfunol** | Cymdeithas sy’n ceisio tynnu grwpiau dyneiddiol y Deyrnas Gyfunol at ei gilydd. |
| **Cymdeithas y Cyfeillion** | teitl mwy ffurfiol am y Crynwyr. |
| **Degwm** | arferiad y gorffennol o dalu swm penodol o bres i Eglwys Lloegr. |
| **Dibyniaeth** | bod yn ddibynol ar rywbeth e.e. cyffuriau neu gamblo. *Addiction.* |
| **Dyneiddiaeth** | y gred nad oes angen Duw neu grefydd i gyflenwi anghenion ysbrydol ac emosiynol pobl. |
| **Dyneiddwyr** | y rhai sy’n dilyn y gred uchod. |
| **Eglwys efengylaidd** | defnyddio diffiniad y ddefnyddiwyd yn flaenorol? |
| **Goleuni Mewnol** | term a ddefnyddir gan Grynwyr ac eraill am ddod i ddealltwriaeth crefyddol. |
| **Goruwchnaturiol** | rhywbeth sydd y tu hwnt i ddeddfau natur. |
| **Gweddus** | addas a pharchus |
| **Gwyddoniadur** | Llyfr cynhwysfawr o wybodaeth. Encyclopaedia. |
| **Llan Llanast** | cyfarfod i blant neu bobl ifanc lle mae straeon Beiblaidd yn cael eu dysgu wrth i deuluoedd ddod at ei gilydd i wneud crefft. *Messy* |

| | |
|---|---|
| **Lloches** | lle diogel i rywun sydd mewn perygl. Shelter/Safe house. |
| **Moesegol** | egwyddorion ymddygiad. |
| **Pobl lled-filwrol** | rhywbeth sy'n debyg i drefn y fyddin quasi-military. |
| **Prif-ffrwd** | yn cael eu cydnabod yn gyffredinol. *Main stream.* |
| **Proffes** | dweud yn gyhoeddus eich bod yn credu rhywbeth. To profess. |
| **Puteiniaid** | pobl sy'n cael rhyw gyda phobl eraill er mwyn cael arian. *Prostitutes.* |
| **Rhyddid** | Cyfiawnder Goddefgarwch Rhesymeg |
| **Seremoni enwi** | enwi plentyn – tebyg i fedydd. |
| **Slymiau** | ardal dlawd mewn tref neu ddinas lle mae'r tai yn fudr ac o ansawdd gwael. Slums. |
| **Tawelwch Mewnol** | term a ddefnyddir gan grynwyr ac eraill am dderbyn boddhad crefyddol. |
| **Tosturi** | y gallu i roi eich hun yn esgidiau rhywun arall. |
| **Trugareddfa** | yn yr Hen Destament (Exodus 25) mae sôn am Arch y Cyfamod, bocs hardd, euraidd oedd yn dal llechi'r Deg Gorchymyn. Roedd y caead yn cael ei alw'n drugareddfa. *Mercy-seat.* |
| **Tyngu Llw** | gwneud addewid arbennig a hynny fel arfer gan alw ar Dduw fel tyst. |